ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales


# Datganiad Ystadegol Cyntaf

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Amcanestyniadau o Aelwydydd Parciau Cenedlaethol (sail 2014)

**26 Gorffennaf 2017**
**SFR 79/2017**

Amcanir y bydd nifer yr aelwydydd ym mharciau cenedlaethol Cymru'n lleihau 1 y cant rhwng 2014 a 2029. Ym Mannau Brycheiniog, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu 5 y cant. Amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn nau barc cenedlaethol arall Cymru'n lleihau, ac amcanir y lleihad mwyaf yn nifer yr aelwydydd yn Arfordir Penfro (10 y cant) ac yna yn Eryri (5 y cant).




Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

## Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r amcanestyniadau o aelwydydd mewn parciau cenedlaethol yng Nghymru, yn seiliedig ar 2014, ar gyfer y cyfnod 15 mlynedd o 2014 i 2029.

Maent yn seiliedig ar yr amcanestyniadau o boblogaethau'r parciau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2017, yn seiliedig ar ddata 2014.

Mae'r amcanestyniadau aelwydydd yn darparu amcangyfrifon o nifer yr aelwydydd a'r mathau o aelwydydd.

Maent yn seiliedig ar dybiaethau am dai a amlinellir yn y cyfrifiadau.

Mae'r tybiaethau gan fwyaf yn seiliedig ar gyfraddau aelodaeth o fewn y gwahanol fathau o aelwydydd.

## Yn y datganiad hwn


Amcanestyniadau yn ôl math o aelwyd 6

Ardaloedd gweddilliol 8

Bannau Brycheiniog 11

Arfordir Penfro 14


Eryri 17



Ystadegydd: Kim Saunders ~ 0300 025 5050 ~ ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk

Ymholiadau'r wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau'r cyhoedd : 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

**Ffigwr 1: Mae'r ffeithlun isod yn dangos y newid a amcanir yn y mathau o aelwydydd ym mharciau cenedlaethol Cymru rhwng 2014 a 2029**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

## Rhagarweiniad

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r Amcanestyniadau o Aelwydydd yng Nghymru, yn seiliedig ar 2014. Mae amcanestyniadau aelwydydd yn rhoi amcangyfrifon o niferoedd yr aelwydydd yn y dyfodol ac yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth ac ystod o dybiaethau am gyfansoddiad a nodweddion aelwydydd. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol.

Mae'r amcanestyniadau'n amcangyfrif nifer yr aelwydydd a'u maint; ac yn tybio bod tueddiadau'r gorffennol o ran genedigaethau, marwolaethau a mudo (hynny yw, pobl yn symud i mewn ac allan o ardal) yn parhau. Nid yw amcanestyniadau a gynhyrchir fel hyn yn caniatáu ar gyfer effeithiau polisïau llywodraeth leol na chanolog ar lefelau poblogaeth a chyfansoddiad aelwydydd yn y dyfodol, nac ar gyfer newidiadau yn ffordd o fyw'r boblogaeth. Hynny yw, nid rhagolygon seiliedig ar bolisi yw'r amcanestyniadau hyn am y parciau cenedlaethol; maent yn nodi'r hyn y disgwylir iddo ddigwydd pe bai'r tueddiadau presennol yn parhau.

Mae'r amcanestyniadau hyn sy'n seiliedig ar 2014 yn amcanestyniadau seiliedig ar dueddiadau ar gyfer y cyfnod 15 mlynedd o 2014 i 2029. Gan eu bod yn seiliedig ar dueddiadau, maent yn mynd yn llai sicr wrth fynd yn bellach i'r dyfodol, ond mae amcanestyniadau ar gyfer y cyfnod 25 mlynedd o 2014 i 2039 i'w gweld yn y tablau crynhoi yng nghefn yr adroddiad hwn ac maent hefyd ar gael StatsCymru. Mae'r amcanestyniadau'n seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2014.

Mae'r amcanestyniadau'n defnyddio methodoleg debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol Cymru yn seiliedig ar 2014 (mae manylion y rhain yn yr adran Gwybodaeth am Ansawdd yng nghefn y datganiad). Defnyddir amcanestyniadau aelwydydd i gynllunio cyflenwi gwasanaethau, i amcangyfrif yr angen am wasanaethau yn y dyfodol, ac i ganfod tueddiadau yn y boblogaeth sy'n cyfrannu at gyd-destun datblygiadau polisi yn y dyfodol; ac yn enwedig i gynllunio tai.

Diffinnir aelwyd fel:

- Unigolyn yn byw ar ei ben ei hun, neu
- Grŵp o bobl (heb fod yn perthyn i'w gilydd o reidrwydd) yn byw yn yr un cyfeiriad ac yn rhannu cyfleusterau coginio ac yn rhannu ystafell fyw neu lolfa neu fan bwyta.


Mae hyn yn cynnwys:

- Unedau llety gwarchod mewn sefydliad lle mae gan 50 y cant neu fwy eu ceginau eu hunain (heb ystyried unrhyw gyfleusterau cymunedol eraill),
- Pawb sy'n byw mewn carafannau ar unrhyw fath o safle sy'n breswylfa arferol iddynt. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw un heb breswylfa arferol arall yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig.

## Cefndir

Pasiwyd Deddf Seneddol yn 1949 i sefydlu parciau cenedlaethol gyda'r nod o warchod eu harddwch naturiol, gwarchod bywyd gwyllt, a darparu cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd. Mae 15 parc cenedlaethol ym Mhrydain: 3 yng Nghymru, 10 yn Lloegr a 2 yn yr Alban.

**Map 1: Parciau Cenedlaethol yng Nghymru**




Yng Nghymru, mae gan bob Parc Cenedlaethol ei Awdurdod Parc Cenedlaethol ei hun, sydd hefyd yn Awdurdod Cynllunio statudol ar gyfer ardal y parc.

Y tri pharc cenedlaethol yng Nghymru yw:

- Bannau Brycheiniog (arwynebedd o 1,344 cilometr sgwâr),

- Arfordir Penfro (arwynebedd o 621 cilometr sgwâr),
- Eryri (arwynebedd o 2,176 cilometr sgwâr).

Maent yn 19.9 y cant o arwynebedd Cymru, o gymharu â 9.3 y cant ar gyfer parciau cenedlaethol Lloegr a 7.2 y cant ar gyfer rhai'r Alban. Mae tri pharc cenedlaethol Cymru wedi'u dangos ar Fap 1.

Dwysedd poblogaeth Cymru yw 149 o bobl i bob cilometr sgwâr. Dwyseddau poblogaeth y parciau cenedlaethol yng Nghymru yw:

- 25 o bobl i bob cilometr sgwâr ym Mannau Brycheiniog,
- 37 o bobl i bob cilometr sgwâr yn Arfordir Penfro,
- 12 o bobl i bob cilometr sgwâr yn Eryri.

Er nad oes poblogaeth ddwys ym mharciau cenedlaethol Cymru, maent yn cynnwys trefi bach a phentrefi yn ogystal â ffermydd mwy anghysbell. Felly, mae gan y parciau cenedlaethol yng Nghymru;


- 20% o'r arwynebedd
- 2.6% o'r boblogaeth

## Pwyntiau allweddol

### Amcanestyniadau o Aelwydydd

- Er yr amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru'n cynyddu 10.5%, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd ym mharciau cenedlaethol Cymru'n lleihau 1% o tua 37,300 i 37,000 erbyn 2029.

**Siart 1: Amcanestyniadau o aelwydydd ym mharciau cenedlaethol Cymru, 2014 i 2029**





Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

*Math o Aelwyd*

- Amcanir y bydd bron i 3 o bob 4 aelwyd yn cynnwys un neu ddau unigolyn heb ddim plant.

**Siart 2: Y newid a amcanir yn nifer yr aelwydydd ym mharciau cenedlaethol Cymru rhwng 2014 a 2029, yn ôl math o aelwyd**





Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

- Amcanir mai aelwydydd ag 1 unigolyn fydd y math mwyaf cyffredin o aelwyd dros holl gyfnod yr amcanestyniad; amcanir cynnydd 11 y cant erbyn 2029.
- Amcanwyd cynnydd yn nifer yr aelwydydd â 2 unigolyn sy'n un oedolyn ac un plentyn, ond mae lleihad yn nifer yr aelwydydd 2 unigolyn heb blant yn mwy na gwrthbwyso'r cynnydd hwn.
- Amcanwyd y bydd pob math o aelwydydd â thri a phedwar unigolyn yn lleihau erbyn 2029.
- Amcanwyd cynnydd yn nifer yr aelwydydd â phum unigolyn heb ddim plant neu â 4+ o blant erbyn 2029, ond mae lleihad yn nifer y mathau eraill o aelwydydd â 5 unigolyn yn mwy na gwrthbwyso'r cynnydd hwn, felly amcanir lleihad yng nghyfanswm nifer yr aelwydydd â phum unigolyn.

**Maint Cyfartalog Aelwyd –**

- Nifer cyfartalog y bobl a oedd yn byw ar aelwydydd ym mharciau cenedlaethol Cymru yn 2014 oedd 2.14. Erbyn 2029, amcanir y bydd hwn wedi lleihau 5 y cant i 2.05.


**Ffigwr 2: Newid niferoedd yr aelwydydd a maint cyfartalog yr aelwydydd rhwng 2014 a 2029**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

## Ardaloedd gweddilliol


Mae llawer o awdurdodau lleol wedi'u lleoli fel bod rhan ohonynt mewn parc cenedlaethol a rhan y tu allan iddo. Gelwir yr ardal sydd y tu allan yn ardal weddilliol[1].




Mae'r diagram canlynol yn dangos y gyfran o arwynebedd awdurdodau lleol sydd o fewn parc cenedlaethol a gweddill yr awdurdod lleol y tu allan i'r parc cenedlaethol (ardal weddilliol);

Canran o ardal awdurdod lleol o fewn Parc Cenedlaethol

**Bannau Brycheiniog**




Powys 16%

Sir Fynwy 7%

Sir Gaerfyrddin, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf 1%

**Sir Benfro**




Sir Benfro 19%

**Eryri**




Gwynedd 16%

Conwy 4%

Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol,

[1] Gweler tudalennau 10 ac 11 am wybodaeth bellach am ardaloedd gweddilliol

I fod yn fanwl gywir, mae darnau bach iawn o'r parciau cenedlaethol o fewn awdurdodau lleol eraill, ond mae'r rhain mor fach nes y gellir eu hanwybyddu ar gyfer y datganiad hwn.

Mae'r amcangyfrifon o boblogaethau'r ardaloedd gweddilliol wedi'u ffurfio o amcangyfrifon ardaloedd bach, ac o wneud tybiaethau ynglŷn â dosbarthiad y boblogaeth mewn ardaloedd nad ydynt o fewn parciau cenedlaethol, felly er eu bod yn syniad defnyddiol o faint y boblogaeth a newid y boblogaeth, ni ddylid meddwl eu bod yn ffigur manwl gywir.

## Ardaloedd gweddilliol o gwmpas Bannau Brycheiniog

### Powys

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn ardal weddilliol Powys yn cynyddu tua 400 (neu 1 y cant). Hwn yw'r cynnydd lleiaf a amcanir mewn ardaloedd gweddilliol yng Nghymru. Amcanir y bydd niferoedd yr aelwydydd un a dau unigolyn ym Mhowys yn cynyddu 2,700 (7.2 y cant). Gwrthbwysir hyn gan y lleihad a amcanir o 2,200 o aelwydydd â mwy na dau o bobl.

### Sir Gaerfyrddin

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn ardal weddilliol Sir Gaerfyrddin yn cynyddu tua 3,400 (neu 3.9 y cant). Amcanir y bydd niferoedd yr aelwydydd un a dau unigolyn yn Sir Gaerfyrddin yn cynyddu 4,800 (8.3 y cant). Gwrthbwysir hyn gan y lleihad a amcanir o 1,400 o aelwydydd â mwy na dau o bobl.

### Rhondda Cynon Taf

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn ardal weddilliol Rhondda Cynon Taf yn cynyddu tua 8,200 (neu 7 y cant). Amcanir y bydd niferoedd yr aelwydydd un a dau unigolyn yn Rhondda Cynon Taf yn cynyddu 9,600 (12.7 y cant). Gwrthbwysir hyn gan y lleihad a amcanir o 1,400 o aelwydydd â mwy na dau o bobl.

### Merthyr Tudful

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn ardal weddilliol Merthyr Tudful yn cynyddu tua 400 (neu 1.6 y cant). Amcanir y bydd niferoedd yr aelwydydd un a dau unigolyn ym Merthyr Tudful yn cynyddu 800 (5 y cant). Gwrthbwysir hyn gan y lleihad a amcanir o 400 o aelwydydd â mwy na dau o bobl.

### Sir Fynwy

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn ardal weddilliol Sir Fynwy yn cynyddu tua 2,700 (neu 10.2 y cant). Amcanir y bydd niferoedd yr aelwydydd un a dau unigolyn yn Sir Fynwy yn cynyddu 2,700 (11.6 y cant). Gwrthbwysir hyn gan y lleihad a amcanir o 700 o aelwydydd â mwy na dau o bobl.

## Ardaloedd gweddilliol o gwmpas Arfordir Penfro

### Sir Benfro

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn ardal weddilliol Sir Benfro yn cynyddu tua 3,300 (neu 7.6 y cant). Amcanir y bydd niferoedd yr aelwydydd un a dau unigolyn yn Sir Benfro yn cynyddu 4,100 (13.8 y cant). Amcanir y bydd nifer yr aelwydydd pum unigolyn hefyd yn cynyddu ychydig; ond gwrthbwysir y cynyddiadau hyn gan y lleihad a amcanir o 800 o aelwydydd tri a phedwar unigolyn.

## Ardaloedd gweddilliol o gwmpas Eryri

### Gwynedd

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn ardal weddilliol Gwynedd yn cynyddu tua 4,800 (neu 11.1 y cant). Amcanir y bydd niferoedd yr aelwydydd un a dau unigolyn yng Ngwynedd yn cynyddu 4,200 (14.4 y cant). Gwrthbwysir hyn gan y lleihad a amcanir o 600 o aelwydydd â mwy na dau o bobl.

### Conwy

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn ardal weddilliol Conwy yn cynyddu tua 1,700 (neu 3.3 y cant). Amcanir y bydd niferoedd yr aelwydydd un a dau unigolyn yng Nghonwy yn cynyddu 2,200 (6.2 y cant). Gwrthbwysir hyn gan y lleihad a amcanir o 600 o aelwydydd â mwy na dau o bobl.

## Bannau Brycheiniog


**Cipolwg**

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth Bannau Brycheiniog yn cynyddu 400. Yn yr un cyfnod, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd ym Mannau Brycheiniog yn cynyddu 900 (5 y cant). Gwelir y cynnydd mwyaf yn nifer yr aelwydydd a amcanir ymysg aelwydydd un unigolyn, ac amcanir y lleihad mwyaf ymysg aelwydydd pedwar unigolyn (110 o aelwydydd). O ganlyniad i hyn, disgwylir i faint cyfartalog aelwyd leihau o 2.2 yn 2014 i 2.1 erbyn 2029.

### Poblogaeth Aelwydydd

Bannau Brycheiniog yw'r unig barc cenedlaethol yng Nghymru lle amcanir y bydd y boblogaeth yn cynyddu erbyn 2029. Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth Bannau Brycheiniog yn cynyddu 400 (1 y cant).

**Ffigwr 3: Amcanestyniadau o boblogaeth aelwydydd preifat ym mharc cenedlaethol Bannau Brycheiniog, 2014-2029**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Bannau Brycheiniog sydd â'r boblogaeth uchaf ar aelwydydd o dri pharc cenedlaethol Cymru (Ffigwr 3). Er yr amcanir lleihad cyson ym mhoblogaeth Arfordir Penfro ac Eryri dros gyfnod yr amcanestyniad, amcanir y bydd poblogaeth Bannau Brycheiniog yn cynyddu yn ystod y deg mlynedd gyntaf, ac y bydd y cynnydd hwn yn arafu i fod yn lleihad bach yn y boblogaeth erbyn 2029. Roedd ardaloedd gweddilliol Sir Gaerfyrddin, Merthyr Tudful a Sir Fynwy hefyd yn dilyn yr un duedd. Fodd bynnag, roedd ardal weddilliol Powys yn dangos lleihad cyson ym mhoblogaeth yr aelwydydd dros gyfnod yr amcanestyniad ac amcanwyd y byddai ardal weddilliol Rhondda Cynon Taf yn gweld cynnydd cyson ym mhoblogaeth ei haelwydydd dros gyfnod yr amcanestyniad (2014 hyd 2029).


Mae amcanestyniadau poblogaeth yn mynd yn llai cadarn wrth i gyfnod yr amcanestyniad gynyddu, felly mae'r amcanestyniadau wedi'u defnyddio dros gyfnod 15 mlynedd hyd at 2029. Fodd bynnag, mae'n werth nodi, er yr amcanir y bydd poblogaeth Bannau Brycheiniog yn cynyddu

erbyn 2029, erbyn 2039 amcanir y bydd poblogaeth Bannau Brycheiniog wedi lleihau 300 (1 y cant yn is nag yn 2014).

### Math o Aelwyd

Er yr amcanir y bydd lleihad yn nifer yr aelwydydd ym mharciau cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd ym mharc cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynyddu 800 (5 y cant).

**Ffigwr 4: Y 3 newid mwyaf yn nifer y mathau o aelwydydd ym mharc cenedlaethol Bannau Brycheiniog rhwng 2014 a 2029**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Yn 2014, y math mwyaf cyffredin o aelwyd oedd aelwydydd dau unigolyn (dau oedolyn a dim plant). Fodd bynnag, erbyn 2029 dim ond 40 oedd y cynnydd a amcanir mewn aelwydydd dau unigolyn heb blant, ac amcanir y bydd nifer yr aelwydydd un unigolyn ym Mannau Brycheiniog rhwng 2014 a 2029 yn cynyddu 890 (19 y cant) gan olygu mai aelwydydd un unigolyn fyddai'r math mwyaf cyffredin o aelwyd erbyn 2029.

Amcanwyd hefyd y byddai aelwydydd dau unigolyn (1 oedolyn ac 1 plentyn) yn cynyddu 110 (23 y cant) erbyn 2029 er mai dim ond 4 y cant o gyfanswm nifer yr aelwydydd ym Mannau Brycheiniog fyddai hynny o hyd.

Roedd y lleihad mwyaf yn nifer yr aelwydydd ymysg aelwydydd pedwar unigolyn (ag o leiaf ddau oedolyn ac un plentyn); amcanwyd y byddai'r rhain yn lleihau 140 (11 y cant) erbyn 2029, ac yn gyfrifol am 7 y cant o'r holl aelwydydd erbyn 2029 o gymharu ag 8 y cant yn 2014.


Amcanwyd hefyd y byddai ardaloedd gweddilliol Powys, Sir Gaerfyrddin, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Sir Fynwy yn gweld cynnydd mewn aelwydydd un unigolyn ac aelwydydd dau

unigolyn heb blant, a lleihad mewn aelwydydd pedwar unigolyn ag o leiaf ddau oedolyn ac un plentyn.

### Maint cyfartalog aelwyd

Mae Maint Cyfartalog Aelwyd, wedi'i fesur mewn unigolion i bob aelwyd yn darparu mesur syml o gyfansoddiad yr aelwyd ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer cymariaethau dros amser a rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol. Fe'i cyfrifir drwy rannu poblogaeth aelwydydd preifat â nifer yr aelwydydd.

**Ffigwr 5: Maint cyfartalog aelwyd ym Mannau Brycheiniog rhwng 2014 a 2029**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Amcanir y bydd maint cyfartalog aelwyd ym Mannau Brycheiniog yn lleihau o 2.2 yn 2014 i 2.1 erbyn 2029. Mae hyn oherwydd amcanir cynnydd mwy yn nifer yr aelwydydd un unigolyn o'u cymharu â phob math arall o aelwyd (Ffigwr 4).

Amcanwyd hefyd y byddai maint cyfartalog aelwyd hefyd yn lleihau 0.1 i 0.2 unigolyn i bob aelwyd, yn ardaloedd gweddilliol Powys, Sir Gaerfyrddin, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, a Sir Fynwy rhwng 2014 a 2029.


## Arfordir Penfro




Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth parc cenedlaethol Arfordir Penfro'n lleihau 2,880 (15 y cant). Yn yr un cyfnod, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn Arfordir Penfro'n lleihau 930 (9 y cant). Amcanir y bydd y gostyngiad mwyaf yn nifer y tai ymysg aelwydydd dau unigolyn heb blant (390 neu 10 y cant). Er bod cynnydd mewn rhai mathau o aelwydydd, roedd y rhain yn fach. Amcanwyd y byddai maint cyfartalog aelwyd yn Arfordir Penfro'n lleihau o 2.1 yn 2014 i 2.0 erbyn 2029.

### Poblogaeth Aelwydydd

**Ffigwr 6: Amcanestyniadau o boblogaeth aelwydydd preifat ym mharc cenedlaethol Arfordir Penfro, 2014-2029**





Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Arfordir Penfro sydd â'r boblogaeth isaf ar aelwydydd o dri pharc cenedlaethol Cymru (Ffigwr 6). Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth Arfordir Penfro'n lleihau 2,880 (15 y cant). Ar y llaw arall, amcanwyd cynnydd cyson yn ardal weddilliol Sir Benfro dros yr un cyfnod.

## Math o Aelwyd

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn Arfordir Penfro'n lleihau 930 (9 y cant).

**Ffigwr 7: Y 3 newid mwyaf yn nifer y mathau o aelwydydd ym mharc cenedlaethol Arfordir Penfro rhwng 2014 a 2029**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Yn 2014, y math mwyaf cyffredin o aelwyd oedd aelwydydd dau unigolyn (dau oedolyn a dim plant). Fodd bynnag, erbyn 2029 amcanir y bydd nifer yr aelwydydd â dau unigolyn heb blant yn lleihau 390 (10 y cant) ac amcanir y bydd nifer yr aelwydydd ag un unigolyn yn Arfordir Penfro'n cynyddu 60 (2 y cant) gan olygu mai aelwydydd ag un unigolyn fyddai'r math mwyaf cyffredin o aelwyd erbyn 2029.

Amcanwyd hefyd y byddai aelwydydd â thri unigolyn heb ddim plant yn lleihau 160 (26 y cant) erbyn 2029 yn Arfordir Penfro. Fel yn nau barc cenedlaethol arall Cymru, roedd lleihad hefyd yn nifer yr aelwydydd â phedwar unigolyn (ag o leiaf ddau oedolyn ac un plentyn); amcanwyd y byddai'r rhain yn lleihau 170 (23 y cant) erbyn 2029, ac yn gyfrifol am 6 y cant o'r holl aelwydydd erbyn 2029 o gymharu â 7 y cant yn 2014.

Ar y llaw arall, amcanwyd y bydd cyfanswm nifer yr aelwydydd yn ardal weddilliol Sir Benfro'n cynyddu 3,350 o aelwydydd (8 y cant) rhwng 2014 a 2029.

## Maint cyfartalog aelwyd

Mae Maint Cyfartalog Aelwyd, wedi'i fesur mewn unigolion i bob aelwyd yn darparu mesur syml o gyfansoddiad yr aelwyd ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer cymariaethau dros amser a rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol. Fe'i cyfrifir drwy rannu poblogaeth aelwydydd preifat â nifer yr aelwydydd.

**Ffigwr 8: Maint cyfartalog aelwyd ym mharc cenedlaethol Arfordir Penfro rhwng 2014 a 2029**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Amcanir y bydd maint cyfartalog aelwyd yn Arfordir Penfro'n lleihau o 2.1 yn 2014 i 2.0 erbyn 2029. Mae hyn oherwydd amcanir cynnydd bach yn nifer yr aelwydydd ag un unigolyn (60) o'i gymharu â lleihad mewn aelwydydd â dau, tri, pedwar a phump unigolyn.

Amcanwyd hefyd y byddai maint cyfartalog aelwyd yn ardal weddilliol Sir Benfro'n lleihau o 2.3 yn 2014 i 2.2 unigolyn i bob aelwyd yn 2029, a hynny'n bennaf oherwydd cynnydd 2,800 (21 y cant) mewn aelwydydd ag un unigolyn yn ystod y cyfnod hwn.


## Eryri

**Cipolwg**

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth parc cenedlaethol Eryri'n lleihau 1,730 (6 y cant). Yn yr un cyfnod, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn Eryri'n lleihau 240 (2 y cant). Amcanir y bydd y gostyngiad mwyaf yn nifer yr aelwydydd ymysg aelwydydd â dau unigolyn heb blant (240 neu 6 y cant). Ar y llaw arall, amcanwyd y bydd nifer yr aelwydydd ag un unigolyn yn cynyddu 480 (10 y cant) gan olygu yr amcanir lleihad ym maint cyfartalog aelwyd yn Eryri o 2.1 yn 2014 i 2.0 erbyn 2029.

**Poblogaeth Aelwydydd**

**Ffigwr 9: Amcanestyniadau o boblogaeth aelwydydd preifat ym mharc cenedlaethol Eryri, 2014-2029**





Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Mae poblogaeth aelwydydd yn Eryri'n fwy nag yn Arfordir Penfro ond yn llai nag ym Mannau Brycheiniog (Ffigwr 9). Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth parc cenedlaethol Eryri'n lleihau 1,730 (6 y cant). Ar y llaw arall, amcanwyd y byddai poblogaeth aelwydydd ardaloedd gweddilliol Gwynedd a Chonwy'n cynyddu erbyn 2029 (er yr amcanir y bydd y cynnydd yng Nghonwy'n arafu dros gyfnod yr amcanestyniad, gan arwain at gynnydd bach o lai nag 1 y cant erbyn 2029 o'i gymharu â 2014).

## Math o Aelwyd

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd nifer yr aelwydydd yn Eryri'n lleihau 930 (9 y cant).

**Ffigwr 10: Y 3 newid mwyaf yn nifer y mathau o aelwydydd ym mharc cenedlaethol Eryri rhwng 2014 a 2029**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Yn 2014, y math mwyaf cyffredin o aelwyd yn Eryri oedd aelwydydd ag un unigolyn. Hefyd, amcanwyd y byddai nifer yr aelwydydd ag un unigolyn yn gweld cynnydd mwy nag unrhyw fath arall o aelwyd erbyn 2029 (480 neu 10 y cant). Ar y llaw arall, amcanir y bydd gostyngiadau yn nifer yr aelwydydd â dau unigolyn heb blant (240 neu 6 y cant) a'r aelwydydd â thri unigolyn heb blant (140 neu 22 y cant).

Hefyd, amcanwyd y byddai nifer yr aelwydydd ag un unigolyn yn cynyddu yn ardaloedd gweddilliol Gwynedd a Chonwy, ac y byddai nifer yr aelwydydd â thri unigolyn heb blant yn lleihau. Fodd bynnag, yn wahanol i Eryri (lle amcanwyd lleihad), amcanwyd y bydd cynnydd yn nifer yr aelwydydd â dau unigolyn heb blant yn ardaloedd gweddilliol Gwynedd a Chonwy rhwng 2014 a 2029.

## Maint cyfartalog aelwyd

Mae maint cyfartalog aelwyd, wedi'i fesur mewn unigolion i bob aelwyd yn darparu mesur syml o gyfansoddiad yr aelwyd ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer cymariaethau dros amser a rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol. Fe'i cyfrifir drwy rannu poblogaeth aelwydydd preifat â nifer yr aelwydydd.

**Ffigwr 11: Maint cyfartalog aelwyd ym mharc cenedlaethol Eryri rhwng 2014 a 2029**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Amcanir y bydd maint cyfartalog aelwyd yn Eryri'n lleihau o 2.1 yn 2014 i 2.0 erbyn 2029. Mae hyn oherwydd amcanir cynnydd yn nifer yr aelwydydd ag un unigolyn (480) o'i gymharu â lleihad mewn aelwydydd â dau, tri, pedwar a phump unigolyn (730).

Amcanwyd hefyd y byddai maint cyfartalog aelwyd yn lleihau o 2.3 yn 2014 i 2.2 unigolyn i bob aelwyd yn ardal weddilliol Gwynedd erbyn 2029, ac o 2.2 i 2.1 unigolyn i bob aelwyd yn ardal weddilliol Conwy, a hynny'n bennaf oherwydd cynnydd mwy mewn aelwydydd ag un unigolyn yn ystod y cyfnod hwn nag unrhyw fath arall o aelwyd.

## Cymhariaeth ag amcanestyniadau aelwydydd blaenorol

Cyfanswm y gwahaniaeth yn nifer yr aelwydydd, yn y parciau cenedlaethol, rhwng yr amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2014 a'r amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2013 oedd 130 o aelwydydd. Roedd y gwahaniaeth canrannol ym Mannau Brycheiniog yn 0.4 y cant (60), yn Eryri yn 0.3 y cant (40) ac yn Sir Benfro yn 0.3 y cant (30).

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Yn ogystal â'r wybodaeth isod, mae gwybodaeth bellach ar gael yn yr Adroddiad Ansawdd Ystadegau Poblogaeth ac Aelwydydd sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn rhoi amcangyfrifon o niferoedd yr aelwydydd yn y dyfodol ac o niferoedd y bobl sy'n byw ynddynt, yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth ac ystod o dybiaethau am gyfansoddiad a nodweddion aelwydydd. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol.

Mae'r amcanestyniadau'n amcangyfrif nifer yr aelwydydd ac yn tybio bod tueddiadau'r gorffennol o ran genedigaethau, marwolaethau a mudo (hynny yw, pobl yn symud i mewn ac allan o ardal) yn parhau. Nid yw amcanestyniadau a gynhyrchir fel hyn yn caniatáu ar gyfer effeithiau polisïau llywodraeth leol na chanolog ar lefelau poblogaeth a chyfansoddiad aelwydydd yn y dyfodol, nac ar gyfer newidiadau yn ffordd o fyw'r boblogaeth. Hynny yw, nid rhagolygon seiliedig ar bolisi yw'r amcanestyniadau hyn gan yr awdurdodau lleol; maent yn nodi'r hyn y disgwylir iddo ddigwydd pe bai'r tueddiadau presennol yn parhau.

Mae'r amcanestyniadau'n defnyddio methodoleg debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol Cymru yn seiliedig ar 2011 (rhoddir manylion y rhain yn nes ymlaen yn yr adran hon).

Mae'r newidiadau i aelwydydd a'r boblogaeth y mae'r amcanestyniadau'n seiliedig arnynt yn gallu dibynnu ar newidiadau i'r economi ac i ffordd o fyw'r boblogaeth. Modelir yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau'r awdurdodau lleol drwy gynhyrchu amcanestyniadau amrywiaethol ynghyd â'r prif amcanestyniad aelwydydd. Mae’r amcanestyniadau amrywiaethol hyn yn dangos sut y gallai amrywiadau posibl o ran tybiaethau am ffrwythlondeb, marwolaethau, a mudo effeithio ar yr amcanestyniadau.

## Perthnasedd

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn bwysig i ddatblygu polisïau, cynllunio, a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Ceir llawer o alw am amcanestyniadau aelwydydd i'w defnyddio mewn ystod eang o ffyrdd. Mae’r rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau cynllunio ac amcangyfrif yr angen yn y dyfodol ar lefel genedlaethol a lleol (er enghraifft, tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) gan gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol
- datblygu polisi
- cyngor i Weinidogion
- rhoi sail i ddadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a thu hwnt
- proffilio daearyddol, cymharu a meincnodi
- dadansoddi cohortau poblogaeth a thueddiadau mudo
- ategu asesiadau lles sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ceir ystod eang o ddata am aelwydydd gan lywodraeth genedlaethol a lleol, elusennau a mudiadau'r sector gwirfoddol, adrannau eraill y llywodraeth, myfyrwyr, ymchwilwyr, prifysgolion, dinasyddion unigol, a chwmnïau preifat. Yn benodol, ceir llawer o ddiddordeb mewn amcanestyniadau ar lefel awdurdodau lleol. Mae angen i bobl sy'n cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn darparu gwasanaethau a helpu i fframio polisïau cynaliadwy ystyried y boblogaeth a'r aelwydydd lle maent yn byw. Mae amcanestyniadau aelwydydd yn gallu canfod tueddiadau sy'n llunio cyd-destun datblygiad polisi yn y dyfodol.

Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 gydsyniad brenhinol ym mis Gorffennaf 2015. Un o elfennau allweddol y Ddeddf yw caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol ddod at ei gilydd a pharatoi Cynllun Datblygu Strategol sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol, gan wasanaethu ardal ddaearyddol ehangach heb ganolbwyntio ar faterion lleol yn unig. Bydd tystiolaeth i ategu'r gwaith o baratoi'r cynllun yn cynnwys ystadegau am ddemograffeg ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd y bydd angen eu hystyried mewn cyd-destun strategol. Ailadroddir amcanestyniadau yn y dyfodol, a bydd y rhain yn cyfrannu at lunio cynlluniau strategol.

Mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol sydd wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (LDP) baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) sy'n mesur sut y mae polisïau wedi perfformio a pha gamau cywiro y gallai fod angen eu cymryd. Mae adroddiadau AMR yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod yr LDP yn aros yn gyfredol. Mae'r cynnydd a ddangosir yn yr adroddiadau AMR yn gallu effeithio ar lefelau a dosbarthiad y boblogaeth, proffiliau demograffig, a phrisiau tai yn y dyfodol. Bydd y canlyniadau hyn, a'u perthynas ag amcanion allweddol y cynllun, yn ffurfio rhan o'r AMR.

### Cywirdeb

Cynhaliwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar *Allbynnau Ystadegol ar Amcangyfrifon ac Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd* o fis Chwefror hyd fis Mai 2016.

Cynigiodd Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig (UKSA) y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ONS a gweinyddiaethau eraill y Deyrnas Unedig i gysoni blwyddyn gychwynnol amcanestyniadau cenedlaethol ac is-genedlaethol lle bo'n bosibl. Gofynnwyd i atebwyr yr ymgynghoriad a oeddent yn cytuno â'r dull hwn ai peidio. Cytunodd pawb â dull UKSA. Nodir, fodd bynnag, ar ôl yr ymgynghoriad ac yn unol ag anghenion defnyddwyr, y gwneid yr amcanestyniadau yng Nghymru bob tair blynedd, ac y byddai ONS yn gwneud amcanestyniadau cenedlaethol bob dwy flynedd.

Mae amcanestyniadau awdurdodau lleol yn defnyddio data gweinyddol ONS. Cynhyrchir amcangyfrifon poblogaeth gan ddefnyddio dull demograffig sefydledig, sef y dull cydrannau cohortau. Mae hyn yn golygu cyfuno gwybodaeth o nifer o ffynonellau data, gan gynnwys y cyfrifiad blaenorol, data arolwg, a chofrestri gweinyddol. Y ffynonellau data a ddefnyddir yw'r gorau sydd ar gael ac yn gyson yn genedlaethol i lawr i lefel awdurdodau lleol, ond mae'r amcangyfrifon yn amodol ar y trylwyredd a'r camgymeriadau sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau hyn. Ystyrir bod gwybodaeth a ddaw o gofrestri gweinyddol, megis nifer y genedigaethau a'r marwolaethau, yn ddibynadwy iawn.

Adroddiadau gwybodaeth methodoleg ac ansawdd ONS ar gyfer thema poblogaeth.

Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data ar gyfer yr allbwn a enwyd ac am ansawdd y data hynny. Eu bwriad yw rhoi gwybodaeth am gryfderau a chyfyngiadau'r data fel y gellir gwneud penderfyniadau am ffyrdd priodol o ddefnyddio'r data. ONS sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd data gweinyddol i'w defnyddio mewn ystadegau swyddogol. Fodd bynnag, fel defnyddiwr a chynhyrchydd allweddol o ystadegau, bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y prosesau'n briodol i unioni unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ansawdd sy'n berthnasol i'r amcanestyniadau hyn, a bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag ONS i ystyried sut y gellid gwneud unrhyw welliannau yn y dyfodol.

Mae'r data gweinyddol a ddefnyddiwyd yn yr amcanestyniadau wedi cael eu gwirio'n fewnol gan Lywodraeth Cymru o ran eu cysondeb a'u hygrededd.

Mae ystadegau genedigaethau'n seiliedig ar nifer y genedigaethau sy'n digwydd mewn blwyddyn benodol. Maent yn cyflwyno data am enedigaethau sy'n digwydd ac yn cael eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ystadegau'n seiliedig ar wybodaeth a gesglir wrth gofrestru genedigaethau. Rhyddheir data blynyddol mewn cyfres o becynnau â themâu penodol, fel rheol rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr. Cyhoeddir ystadegau genedigaethau blynyddol y Deyrnas Unedig a'i gwledydd o dan 'ystadegau hanfodol: tablau cyfeirio poblogaeth ac iechyd'.

Mae ystadegau genedigaethau ONS yn seiliedig ar gofrestriadau a ddarperir gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (GRO). Mae'r data hyn yn gofnod cyfreithiol, sy'n golygu mai dyma'r ffynhonnell ddata orau a'r fwyaf cyflawn.

Fel rhan o'r broses o gofrestru genedigaethau, cyn y cyflwynir data drwy'r system Cofrestru Ar-lein ar gyfer genedigaethau a marwolaethau (RON), bydd y cofrestrydd yn gofyn i'r hysbysydd wirio bod yr holl ddata a gofnodwyd yn gywir. Yna, bydd y cofrestrydd yn gallu cywiro unrhyw gamgymeriadau. Mae rhai gwiriadau dilysu'n rhan o'r system RON i helpu'r cofrestrydd â'r broses hon. Yn gyffredinol, credir bod gwybodaeth a roddir wrth gofrestru genedigaeth yn gywir, oherwydd gallai'r hysbysydd gael ei erlyn am gyflenwi gwybodaeth ffug yn fwriadol.

Pan fydd ONS yn derbyn cofrestriadau genedigaethau, cynhelir nifer o wiriadau ar y cofnodion i sicrhau eu bod yn ddilys. Caiff cofnodion â gwerthoedd eithafol ar gyfer y prif newidynnau (megis oed y fam ac oed y tad) eu gwirio'n amlach gan fod y rhain yn cael mwy o effaith ar y tablau a gyhoeddir. Caiff unrhyw gofnodion genedigaethau sy'n edrych yn amheus eu codi gyda'r GRO bob mis ar gyfer ymchwiliadau pellach. Caiff unrhyw newidiadau arfaethedig i ddulliau cofnodi a chasglu data cofrestru genedigaethau eu rheoli'n ofalus gan gynnwys ONS, GRO, a rhanddeiliaid eraill. Mae hyn yn sicrhau yr ystyrir yn llawn unrhyw oblygiadau i ystadegau genedigaethau.

Mae newidiadau a wnaethpwyd i Ddeddf Poblogaeth (Ystadegau) 1938 yn golygu bod gwell data wedi'u casglu am blant blaenorol ers mis Mai 2012. Bydd y newidiadau'n gwella cywirdeb ystadegau genedigaethau yn ôl trefn genedigaethau ac yn cyfrannu at amcangyfrifon o faint teuluoedd a mesurau ffrwythlondeb. Mae ONS yn cynnal archwiliadau chwarterol o'r set ddata genedigaethau.

Roedd Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1836 yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i gofrestru pob marwolaeth o 1 Gorffennaf 1837 ymlaen. Mae ystadegau marwolaethau Cymru a Lloegr yn seiliedig ar y wybodaeth a gesglir pan fydd marwolaeth yn digwydd ac yna'n cael ei

chofrestru. Mae'r ffigurau a gyhoeddir yn cynrychioli nifer y marwolaethau a gofrestrir yn y cyfnod y cyfeirir ato.

Mae'r ystadegau marwolaethau blynyddol yn cynnwys Cymru a Lloegr. Mae'r tabl Data Cyfres Amser Blynyddol yn yr "ystadegau hanfodol: tablau cyfeirio poblogaeth ac iechyd" yn darparu ystod o ystadegau marwolaethau'r Deyrnas Unedig a'i gwledydd, ac mae rhai mesurau ar gael mor bell yn ôl ag 1838.

Mae ONS yn derbyn detholiadau dyddiol o gofrestriadau marwolaethau gan RON ac maent yna'n mynd drwy gyfres o brosesau dilysu awtomatig sy'n tynnu sylw at unrhyw anghysondeb. Mae'r Metadata Marwolaethau'n rhoi gwybodaeth fanwl am gasglu a phrosesu data marwolaethau ar gyfer Cymru a Lloegr, ac am ansawdd y data hyn.

Yna, cynhelir gwiriadau cysondeb mewnol i ddileu unrhyw gamgymeriadau a wnaethpwyd wrth gofnodi marwolaethau, ac i sicrhau bod y set ddata flynyddol yn gyflawn. Cyn y gellir eu defnyddio at ddibenion dadansoddi, mae'r data'n mynd drwy fwy o wiriadau a phrosesau dilysu, gan gynnwys cyfrif amledd ystod o newidynnau, gwirio hygrededd cyfuniadau o feysydd, a gwirio anghysondebau. Cyfeirir cofnodion amheus yn ôl at swyddfeydd cofrestru. Cyfeirir unrhyw bryderon am achos marwolaeth at Ymgynghorydd Meddygol neu Epidemiolegydd Meddygol.

Mae ONS, NRS, a NISRA yn cynhyrchu amcangyfrifon mudo mewnol a rhyngwladol hirdymor ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon at ddiben cynhyrchu ystod o amcangyfrifon poblogaeth. Cyflwynir y data ar ffurf:

- Niferoedd mewnfudo ac allfudo rhyngwladol hirdymor - yn cynrychioli nifer y bobl sy'n cyrraedd neu'n gadael y Deyrnas Unedig am gyfnod o 12 mis o leiaf.
- Niferoedd mewnfudo ac allfudo mewnol - amcangyfrif o fudo o fewn y Deyrnas Unedig (llifoedd dros ffiniau pob un o'r gwledydd, yn ogystal â mudo rhwng awdurdodau lleol).
- Cyfraddau trosiant mudo rhyngwladol a mewnol hirdymor (megis nifer y symudiadau rhwng mewnfudo ac allfudo) i bob 1,000 (o gyfanswm y boblogaeth)
- Cyfraddau mewnlifiad ac all-lifiad rhyngwladol hirdymor i bob 1,000 (o gyfanswm y boblogaeth)
- Cyfanswm nifer mudo i bob 1,000 (cyfanswm mudo mewnol a rhyngwladol). Mae hyn yn dangos yn gliriach ym mha ardaloedd mae llawer o drosiant poblogaeth

Mae ONS yn cynhyrchu amcangyfrifon mudo rhyngwladol tymor byr ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r data'n cynnwys niferoedd mewnfudo rhyngwladol tymor byr, sy'n cynrychioli nifer y bobl a arhosodd yng Nghymru a Lloegr am gyfnod rhwng 3 a 12 mis.

Bydd niferoedd y mudwyr rhyngwladol sy'n ymuno â ffynhonnell weinyddol yn dibynnu ar ddiben y system weinyddol dan sylw ac mae'n anochel y bydd yn amrywio o un ffynhonnell i'r nesaf.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Fel rhan o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar allbynnau ystadegol ar amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd, cynigiwyd amserlen ar gyfer amcanestyniadau'r 22 awdurdod lleol a'r 3 awdurdod parc cenedlaethol. Gofynnwyd i'r atebwyr:

- A ydych yn cytuno â'r amserlen?
- Beth yw eich anghenion ar gyfer y dyfodol o ran amcanestyniadau?
- Pa mor aml y dylid eu cynhyrchu?

Roedd y rhan fwyaf o atebwyr yn meddwl y dylid cynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth ac amcanestyniadau aelwydydd is-genedlaethol unwaith bob tair blynedd.

### Darllenadwyedd ac eglurder

Fel rhan o'r broses o asesu cydymffurfiad â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol o Amcangyfrifon ac Amcanestyniadau Poblogaeth Cymru a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan UKSA (Adroddiad Asesu 310 Gorffennaf 2015), gofynnodd gofyniad 7a am i adroddiadau'r dyfodol am yr amcanestyniadau gael eu hysgrifennu mewn modd sy'n eu gwneud mor ddarllenadwy â phosibl i ystod eang o ddefnyddwyr.

Cafodd testun Datganiad Amcanestyniadau 2015 ei asesu o ran darllenadwyedd gan aelod staff â Diploma mewn Saesneg Plaen a roddwyd gan yr Ymgyrch Saesneg Plaen, sy'n golygu bod ganddo gymhwyster i asesu a fyddai dogfen yn cael Nod Grisial (safon y diwydiant ar gyfer darllenadwyedd). Barnwyd y byddai Datganiad 2015 yn cael Nod Grisial.

### Cymharedd a chydlyniad

Mae'r amcanestyniadau aelwydydd yn defnyddio dull gwahanol i'r dulliau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu amcanestyniadau aelwydydd Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae cyfanswm niferoedd yr aelwydydd a amcanir yng Nghymru'n seiliedig ar gyfanswm ffigurau pob awdurdod lleol.

Rhoddir canllawiau manwl ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng amcanestyniadau aelwydydd pedair gwlad y Deyrnas Unedig mewn adroddiad.

Mae Amcanestyniadau Aelwydydd yn seiliedig ar Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn eu tro'n seiliedig ar ystadegau poblogaeth, genedigaethau, marwolaethau a mudo a ddarperir gan ONS. Cymhwysir tybiaethau am ffurfiant aelwydydd yn y dyfodol i ganlyniadau'r amcanestyniadau poblogaeth hyn yn ôl oed a rhyw. Datblygir y tybiaethau hyn o dueddiadau'r gorffennol sy'n seiliedig ar ffigurau cyfrifiadau 2001 a 2011 a gynhyrchir gan ONS.

Defnyddir diffiniadau safonol o aelwyd a sefydliad cymunedol ar gyfer yr amcanestyniadau.

*Aelwyd*

Diffinnir aelwyd fel un unigolyn yn byw ar ei ben ei hun, neu fel grŵp o bobl (heb fod yn perthyn i'w gilydd o reidrwydd) yn byw yn yr un cyfeiriad ac yn cadw tŷ gyda'i gilydd – hynny yw, yn rhannu naill ai ystafell fyw neu lolfa neu'n rhannu o leiaf un pryd bwyd bob dydd.

*Sefydliad Cymunedol*

Diffinnir sefydliad cymunedol fel sefydliad sy'n darparu llety preswyl a reolir. Mae a reolir yn golygu goruchwyliaeth lawn-amser neu ran-amser yn y llety. Yn y rhan fwyaf o achosion (er enghraifft, carchardai, ysbytai mawr, gwestai) mae'n hawdd adnabod sefydliadau cymunedol. Fodd bynnag,

mae gwestai bach, tai llety a llety gwarchod yn gallu peri anawsterau. Mae rheolau arbennig yn berthnasol yn yr achosion hyn:

Caiff gwestai bach a thai llety eu trin fel sefydliadau cymunedol os oes ganddynt le i 10 neu fwy o westeion, ac eithrio'r perchennog/rheolwr a'i deulu/theulu.

Caiff tai gwarchod eu trin fel sefydliad cymunedol os oes gan lai na hanner y preswylwyr eu cyfleusterau coginio eu hunain. Os oes gan hanner neu fwy eu cyfleusterau coginio eu hunain (heb ystyried a ydynt yn eu defnyddio) caiff yr holl sefydliad ei drin fel aelwydydd ar wahân.

## Methodoleg

Mae'r amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar fethodoleg debyg i amcanestyniadau aelwydydd yr Awdurdodau Lleol a oedd yn seiliedig ar ddata 2011.

Cynhyrchir Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol gan ddefnyddio dull demograffig sefydledig, sef y dull cydrannau cohortau. Hynny yw:

- cymryd amcangyfrif poblogaeth y flwyddyn ddiweddaraf;
- tynnu grwpiau poblogaeth arbennig;
- ychwanegu blwyddyn at oed pob unigolyn;
- ychwanegu genedigaethau a thynnu marwolaethau;
- caniatáu am fudo i mewn ac allan;
- adio'r grwpiau poblogaeth arbennig unwaith eto.

Datblygwyd methodoleg yr amcanestyniadau hyn drwy gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a defnyddwyr allweddol yng Nghymru drwy gyfrwng gweithgor Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru (WASP). Mae'r grŵp hwn wedi cwrdd yn rheolaidd wrth i'r amcanestyniadau gael eu paratoi ac mae wedi bod yn fforwm ar gyfer trafodaeth dechnegol am y fethodoleg a'r data sylfaenol a ddefnyddiwyd. Mae aelodau o WASP yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol a'r Parc Cenedlaethol sy'n wybodus ac yn brofiadol o ran data demograffeg ac amcanestyniadau poblogaeth.

Mae diweddariadau rheolaidd hefyd wedi'u darparu yng nghyfarfodydd llawn Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (WSLC). Mwy o wybodaeth am WSLC, gan gynnwys aelodaeth.

Mae'r tybiaethau, yn gyffredinol, yn seiliedig ar dueddiadau yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf, ac mae'r amcanestyniadau'n dynodi beth allai ddigwydd pe bai'r tueddiadau hyn yn parhau. Mae addasiadau wedi'u gwneud i'r tybiaethau am farwolaethau ar lefel grwpiau oed pum mlynedd, i ystyried gwelliannau i gyfraddau marwolaethau yn y dyfodol. Cymerwyd yr addasiadau hyn o'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a gynhyrchwyd gan ONS. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfraddau marwolaethau wedi gwella, ac felly mae disgwyliad oes wedi cynyddu. Tybir y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

Mae'r tybiaethau am ffrwythlondeb yn seiliedig ar dueddiadau yn y blynyddoedd diwethaf; bu tuedd gyffredinol o gyfraddau genedigaethau ychydig yn uwch ymysg menywod yn eu tridegau, sy'n

arwydd o oedi cyn bod yn fam. Mae'r amcanestyniadau'n dangos beth allai ddigwydd yn y dyfodol pe bai'r tueddiadau hyn yn parhau.

Mae addasiadau wedi'u gwneud i'r tybiaethau am ffrwythlondeb ar lefel grwpiau oed pum mlynedd, i ystyried patrymau tebygol yn y dyfodol o ran oedran y fam. Cymerwyd yr addasiadau hyn o'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a gynhyrchwyd gan ONS.

Mae'r holl ffigurau sy'n ymwneud â phoblogaeth oedran gweithio ac oedran pensiwn yn seiliedig ar oedran pensiwn y wladwriaeth yn y flwyddyn dan sylw. Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 mlwydd oed i ddynion a 60 mlwydd oed i fenywod, i 65 mlwydd oed i'r ddau ryw. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 mlwydd oed i 68 mlwydd oed i'r ddau ryw.

Mae canllawiau ynglŷn â'r fethodoleg fanwl a ddefnyddiwyd i gynhyrchu Amcanestyniadau Poblogaeth yr Awdurdodau Lleol wedi'u cyhoeddi mewn adroddiad technegol.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd, a gwerth cyhoeddus.

Dylai ystadegau swyddogol i gyd gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Byddant yn cael statws Ystadegau Gwladol ar ôl asesiad gan gangen rheoleiddio Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n bodloni'r safonau uchaf o ran cydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir gan yr Ystadegau Gwladol. Os ydym yn dechrau pryderu nad yw'r ystadegau hyn yn dal i fodloni'r safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod ar unwaith. Gellir colli statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg os na chynhelir y safonau uchaf, a gellir cael y statws yn ôl ar ôl adfer y safonau.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru. Mae'r rhain yn anelu at Gymru fwy cyfartal, ffyniannus, gwydn, iach a chyfrifol yn fyd-eang, â chymunedau cydlynol a diwylliant llewyrchus â'r Gymraeg yn ffynnu. Dan adran (10)(1) y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu defnyddio at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Llesiant, a (b) cyflwyno copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Pennwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016 ac er nad yw dim o'r dangosyddion yn ymwneud yn uniongyrchol â nifer yr aelwydydd na'u math, mae dangosyddion 10, 18, 19, a 34 yn awgrymu defnyddio aelwydydd fel nodwedd gyffredin (yn hytrach na phoblogaeth).

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol amrywiol - Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion Cenedlaethol

Mae'r Ddeddf yn awgrymu ymrwymiad i Weinidogion Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Adroddiad *Tueddiadau'r Dyfodol* gan gynnwys:

a. rhagfynegi tueddiadau tebygol y dyfodol o ran llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru;
b. Unrhyw ddata a gwybodaeth ddadansoddol gysylltiedig y bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried eu bod yn briodol.

Mae'n debygol y defnyddid amcanestyniadau aelwydydd fel rhan o'r Adroddiad *Tueddiadau'r Dyfodol*

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 .

Gallai'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Allbynnau cysylltiedig

Mae data pellach am boblogaeth Cymru gan gynnwys Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru ar gael trwy wefan Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddir amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cyhoeddir Amcanestyniadau Cenedlaethol o'r Boblogaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig a'r gwledydd sy'n rhan ohoni, gan gynnwys Cymru, gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r amcanestyniadau diweddaraf yn defnyddio 2014 fel blwyddyn sylfaen.

Cyhoeddir Amcanestyniadau Aelwydydd ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol), Swyddfa Gofrestru Genedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon yn eu trefn. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn:

## Lloegr

Gov.UK: Household porjections (Saesneg yn unig)

**Yr Alban**

National Records of Scotland: Household projections (Saesneg yn unig)

**Gogledd Iwerddon**

Northern Ireland Statistics and Research Agency: Household proejctions (Saesneg yn unig)

## Manylion pellach

Mae'r datganiad ystadegol hwn ar gael yn:
http://llyw.cymru/statistics-and-research/household-projections/?lang=cy

Mae ystadegau manwl am aelwydydd yn ôl awdurdod lleol a math o aelwyd ar gael ar StatsCymru.

## Diweddariad Nesaf

Medi 2019 (i'w gadarnhau)

## Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn; gallwch ei anfon drwy e-bost i ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio lle nodir fel arall.

OGL